# ATODLEN 1

Rheoliad 23

## FFURF AR HYSBYSIAD O GOSB BENODEDIG

| * (**Mewnosoder enw'r Awdurdod Hawlenni*) | **HYSBYSIAD O GOSB BENODEDIG [ENW'R GORCHYMYN CYNLLUN HAWLENNI] RHEOLIADAU'R CYNLLUN HAWLENNI RHEOLI TRAFFIG (CYMRU) 2009** | **HYSBYSIAD O GOSB BENODEDIG** Rhif: ………………… |
|---|---|---|
| **RHAN A** | | |
| Rhif Ffôn Cyswllt | Rhif Cyfeirnod yr Hawlen * | |
| **AT:** | **DYDDIAD YR HYSBYSIAD HWN:** ……………… dd mm bb | |
| **CYFEIRIAD:** | | |
| **COD Y TRAMGWYDD** (*Gweler Rhan B* ) (***DS***: *Dim ond un cod tramgwydd fesul hysbysiad o gosb benodedig*): | | |
| **LLEOLIAD:** | | |
| **DYDDIAD Y TRAMGWYDD** | | |
| **MANYLION Y TRAMGWYDD** | | |

**1.**Yr wyf yn rhoi'r hysbysiad hwn i chi, yn unol â Rhan 5 o Reoliadau Cynllun Hawlenni Rheoli Traffig (Cymru) 2009, er mwy'n rhoi'r cyfle i chi i gael eich rhyddhau rhag unrhyw atebolrwydd am gollfarn am y tramgwydd cosb benodedig hwn drwy dalu'r tâl cosb.

**2**. Mae hyn yn golygu na fydd achos cyfreithiol yn cael ei gychwyn am y tramgwydd os telir, yn ddarostyngedig i baragraff 3, y tâl cosb o [**£500**] [**£120**] (*Gweler Rhan B i gael cyfarwyddiadau ynghylch y dulliau talu*) o fewn y cyfnod o **36** o ddiwrnodau yn dechrau ar y diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad hwn. (***DS***: *Caniateir i'r awdurdod hawlenni estyn y cyfnod hwn mewn unrhyw achos penodol os bydd yn barnu bod hynny'n briodol (Gweler rheoliad 24(3))*).

**3**. Yn hytrach na thalu'r swm y cyfeirir ato ym mharagraff 2, gellir hefyd gael rhyddhad o'r atebolrwydd o gollfarn am y tramgwydd os telir y swm disgownt o [**£300**] [**£80**] o fewn y cyfnod o **29** o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad hwn. (***DS***: *Os nad yw diwrnod olaf y cyfnod hwn yn ddiwrnod gwaith, caiff y cyfnod ar gyfer talu'r swm disgownt ei estyn tan ddiwedd y diwrnod gwaith nesaf (Gweler rheoliad 25(3))*.).

**4**. Os na thelir y swm disgownt o fewn y cyfnod a nodir ym mharagraff 3, fel y'i hestynnwyd pan fo hynny'n berthnasol, dim ond o dalu'r tâl cosb o [**£500**] [**£120**] o fewn y cyfnod a geir ym mharagraff 2, fel y'i hestynnir os bernir bod hynny'n briodol, y gellir cael rhyddhad o'r atebolrwydd o gollfarn am y tramgwydd. Os byddwch wedyn yn methu â thalu'r tâl cosb o fewn y cyfnod hwnnw, caniateir cychwyn achos cyfreithiol yn eich erbyn am y tramgwydd.

**5**. Cewch gyfeirio unrhyw sylwadau yr ydych yn dymuno eu gwneud ynghylch yr hysbysiad hwn at y gan nodi rhif yr hysbysiad o gosb benodedig a ddangosir uchod.

**ENW'R SWYDDOG AWDURDODEDIG** (*mewn prif lythrennau*): ……………………………………………………………

**DYDDIAD:** ……………………………………………………………

| RHAN B | | |
|---|---|---|
| * (* *Mewnosoder enw'r Awdurdod Hawlenni*) | <u>CYFARWYDDIADAU O RAN Y DULLIAU TALU</u> | **HYSBYSIAD O GOSB BENODEDIG** Rhif: …………………… |
| **YN ELECTRONIG** - drwy System Glirio Awtomataidd y Banciau (BACS). Dylid gwneud y taliad i , Cod Sortio , Rhif y Cyfrif. . Gyda'r taliad rhaid anfon yn brydlon restr o rifau'r hysbysiadau o gosb benodedig y mae'r taliad i'w talu a'r swm a delir mewn cysylltiad â phob rhif. | | |
| | | |
| "**AR LEIN**" - ewch at ein gwefan yn. | | |
| | | |
| **DRWY'R POST**- drwy wneud eich siec yn daladwy i , a'i hanfon at . Gyda'r taliad rhaid anfon rhestr o rifau'r hysbysiadau o gosb benodedig y mae'r taliad i'w talu a'r swm a delir mewn cysylltiad â phob rhif. Anfonir derbynneb os gofynnir am un. | | |
| | | |
| **YN BERSONOL** - i yn rhwng [9.00am a 4.30pm] ar unrhyw ddiwrnod y bydd y swyddfa ar agor i fusnes. Dylid gwneud unrhyw siec yn daladwy i . Caniateir talu drwy gerdyn credyd neu gerdyn debyd os yw'r cerdyn yn un a dderbynnir gan yr Awdurdod Hawlenni yn unol â'i weithdrefnau safonol. Gyda'r taliad rhaid anfon rhestr o rifau'r hysbysiadau o gosb benodedig y mae'r taliad i'w talu a'r swm a delir mewn cysylltiad â phob rhif. Rhoddir derbynneb os gofynnir am un. | | |
| | | |
| **DROS Y FFÔN** - drwy gysyslltu â yn ar rhwng [09:00am a 4.30pm] ar unrhyw ddiwrnod y bydd y swyddfa ar agor i fusnes. Dim ond drwy ddefnyddio cerdyn credyd neu gerdyn debyd a dderbynnir gan yr Awdurdod Hawlenni yn unol â'i weithdrefnau safonol y gellir talu. Rhaid i chi nodi rhif yr hysbysiad o gosb benodedig mewn perthynas â phob hysbysiad y mae'r taliad i'w dalu a'r swm a delir mewn cysylltiad â phob rhif. Anfonir derbynneb os gofynnir am un. | | |

| CODAU TRAMGWYDDAU A DISGRIFIAD (Drwy gyfeirio at Reoliadau Cynllun Hawlenni Rheoli Traffig (Cymru) 2009) | | |
|---|---|---|
| **COD** | **Y TRAMGWYDD** | **DISGRIFIAD CRYNO** |
| **PS01** | Tramgwydd o dan Reoliad 19(1) | Ymgymryd heb hawlen â gwaith penodedig ar stryd benodedig pan fo Cynllun Hawlenni cymwys yn gwneud cael hawlen yn ofynnol. |
| **PS02** | Tramgwydd o dan Reoliad 20(1) | Torri amod cael hawlen. |

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

## ATODLEN 2

Rheoliad 27

## FFURF AR HYSBYSIAD SY'N TYNNU'N ÔL HYSBYSIAD O GOSB BENODEDIG

<table>
<tr>
<td>*<br><br>(* Mewnosoder enw'r Awdurdod Hawlenni)</td>
<td>HYSBYSIAD YN TYNNU'N ÔL HYSBYSIAD O GOSB BENODEDIG<br><br>[ENW'R GORCHYMYN CYNLLUN HAWLENNI] RHEOLIAD 27 O REOLIADAU CYNLLUN HAWLENNI RHEOLI TRAFFIG (CYMRU) 2009</td>
<td>HYSBYSIAD O GOSB BENODEDIG<br>Rhif:<br>…………………</td>
</tr>
<tr><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td colspan="3">DALIER SYLW mae'r hysbysiad o gosb benodedig sy'n dwyn y rhif uchod drwy hyn WEDI EI DYNNU'N ÔL.</td></tr>
<tr><td colspan="3">ENW'R SWYDDOG AWDURDODEDIG (mewn prif lythrennau) :<br>……………………………………………</td></tr>
<tr><td colspan="3">DYDDIAD :<br>……………………………………………</td></tr>
</table>